# Symud Fel Pryfyn




**Amcanion dysgu:**

Dysgu mwy am y pryfed y gallwch chi eu canfod yn yr ardd neu'r ardal leol.

Datblygu cydbwysedd a gwahanol ffyrdd o symud a theithio.

Deimlo llawenydd wrth wneud gweithgarwch corfforol


Eco-Tots Cymru

cadwch gymru'n daclus keep wales tidy

The Moondance Foundation

Bywyd Gwyllt Bendigedig

## Gwybodaeth ymarferydd:

Mae bwystfilod bach yn chwarae rhan bwysig iawn yn ein byd, er eu bod yn fach ac yn hawdd eu hanwybyddu.

Mae gwenyn a pili pala yn helpu planhigion a blodau i dyfu drwy eu peillio. Mae buchod coch cwta yn cadw pryfed gleision dan reolaeth, gan ddiogelu ein ffrwythau a'n llysiau. Mae mwydod a chwilod yn gwella'r pridd, gan helpu mwy o fwyd i dyfu, tra bod pryfed cop yn helpu i reoli pryfed a thrychfilod eraill.

Gall cymryd amser i wylio a dysgu am y creaduriaid yn ein cartrefi a'n gerddi helpu plant i deimlo'n fwy cysylltiedig â natur. Mae hefyd yn eu hannog i ofalu am fywyd gwyllt ac i edrych ar ôl y mannau lle mae'r pryfed bach hyn yn byw.

## Gweithgaredd:

Gellir gwneud y gweithgaredd hwn naill ai fel rhan o helfa pryfed, gan efelychu'r symudiadau wrth i'r plant ddod o hyd i'r pryfed, neu'n syml fel gêm symud hwyliog!

**Allwch chi wneud y canlynol?**

- Dawnsio fel gwenynen fêl (siglo dy ben ôl! dyma sut mae gwenyn yn dweud wrth ei gilydd ble i ddod o hyd i baill!)
- Siglo fel mwydyn
- Llithro fel gwlithen
- Fflapio fel glöyn byw
- Rholio'n bêl fel pryf lludw
- Cropian fel buwch goch gota
- Rhewi fel pry cop
- Siglo'ch bysedd fel neidr cantroed
- Rhoi eich breichiau yn yr awyr gyda'ch dyrnau ar gau fel llygaid malwen

Eco-Tots Cymru
cadwch gymru'n daclus keep wales tidy
The Moondance Foundation
Bywyd Gwyllt Bendigedig